Gwasanaethau i gyd am 10.30 os na nodir yn wahanol

Ebrill	**1**	**- Sul y Pasg - Cymundeb** **Parchg Hywel Wyn Richards**
	8	**- Cwrdd Undebol y Gwanwyn** **Parchg Jill-Hailey Harris**
	15	**- Parchg Gerwyn Jones**
	22	**- Parchg Hywel Wyn Richards**
	29	**- Dr Neville Evans**
Mai	**6**	**- Cymundeb** **Parchg Gerwyn Jones**
	13	**- Cwrdd Undebol yn Noddfa** **Parchg Judith Morris**
	20	**- Parchg Meirion Sewell**
	27	**- Parchg Hywel Wyn Richards**
Mehefin	**3**	**- Cymundeb** **Parchg Hywel Wyn Richards**
	10	**- Parchg Derwyn Morris Jones**
	17	**- Parchg R Alun Evans**
	24	**- Parchg Ken Williams**

Tabernacl Porthcawl

Ebrill 2018

Annwyl chwiorydd a brodyr yng Nghrist, cyfarchion cynnes.

Mae'n fraint eich cyfarch fel hyn ar ran y swyddogion. Fy nyletswydd gyntaf yw diolch i chi am y croeso mae Cathy a minnau wedi cael i'ch plith. Rhaid imi ddweud hefyd bod hi'n anrhydedd i fod yn ddiacon anrhydeddus. Dw i ddim yn siŵr beth yw dyletswyddau hwnnw ond fe wnaf fy ngorau.

Y mae hyn wedi rhoi cyfle imi i weld y gofal sydd ymhlith y swyddogion, nid yn unig am yr adeiladau ond am bawb ohonoch chi ac yn arbennig y sawl sy'n llesg ac yn gaeth i'w haelwydydd. Y mae cynllun ar waith i sicrhau bod pawb yn cael gofal bugeiliol er nad oes gweinidog gyda ni ar hyn o bryd. Yn wir dw i ddim wedi dod ar draws swyddogion gwell na mwy gofalus yn unman.

Y mae wedi bod yn aeaf caled; ag eira wedi disgyn a sefyll, hyd yn oed ar lan y môr. Y mae rhai yn rhoi'r bai arnaf fi am ganmol y lle gymaint! Ond erbyn bydd hyn o bwt wedi dod i'ch dwylo bydd y gwanwyn yma. Rhaid inni fyw mewn gobaith. Mae'r hinsawdd mae'r Eglwys yn bodoli ynddi yn y Gymru hon yn aeafol hefyd ar hyn o bryd, a dyw hi ddim yn hawdd taro nodyn o obaith mewn dyddiau fel y rhain. OND rydym newydd ddathlu Gŵyl y Pasg, Tymor yr Atgyfodiad. Fel y bu i'r Arglwydd godi Crist o'i fedd, y mae wedi codi'r Eglwys o'r llwch hefyd lawer tro a'i hadnewyddu hi. Dros yr wythnosau diweddaf gwelsom bobol yn cael eu gwaredu o luwchfeydd eira, felly y mae Duw wedi gwaredu'r Eglwys dro a thro.

Rydym yn gobeithio cael gweithiwr (!) ieuenctid i estyn mas at yr ifanc yn ein bro, fel bod enw Iesu'n cael ei barchu o'r newydd, a bydd eraill eto yn dod i wybod am wres y gymdeithas Gristnogol. Ein dyletswydd, na ein braint, yw dal ati i fyw bywyd Teyrnas Iesu yn y cylchoedd rydyn ni'n byw ynddynt, i gadw'r fflam ynghyn a sicrhau bod croeso cynnes i bawb. Y mae pennill Elfed yn dal yn wir o hyd:

> O Arglwydd Dduw ein tadau, ein craig a'n tŵr wyt ti:
> O gogonedda eto dy enw ynom ni;
> ni cheisiwn fwy anrhydedd na rhodio'n llwybrau'r groes
> gan fyw i ddangos Iesu a gwasanaethu'n hoes.

Daliwn ati, ac i ddyfynnu Dewi Sant, byddwn lawen a gwnawn y pethau bychain hynny y gall pob un ohonom ei wneud a fydd yn dangos mai pobol Crist ydyn ni. Y mae'n haws gwneud hyn, wrth gwrs, wrth inni ddod i'r oedfa yn rheolaidd a chalonogi'n gilydd a chael ein hysbrydoli yng nghwmni' gilydd a chwmni Duw.

Pob bendith,

Gerwyn

Diolch hefyd i'r Parchg Hywel Wyn Richards am ei arweiniad yn ein plith a hyfryd yw cael croesawu Mrs Dilys Richards ei briod i'n plith i rai oedfaon.

Danfonwn ein dymuniadau gorau i Rosan ein cyn-weinidog gan obeithio y bydd ei hiechyd yn gwella. Ers ymddeol ddiwedd Rhagfyr mae wedi gorfod dioddef cyfnod helaeth o salwch. Brysia wella i fwynhau dy ymddeoliad.

YMWELD Â PICTON COURT

Rydym wedi derbyn cais gan aelod o Eglwys Stella Maris sef Shajipha Bijou sydd yn rheolwr yng Nghartref Picton Court, Porthcawl. Mae yn gofyn yn garedig a oes yna Gymry Cymraeg yn yr ardal fyddai yn barod i dreulio rhyw hanner awr y mis i ymweld a sgwrsio gyda unrhyw Gymry Cymraeg sydd yn preswylio yn y cartref. Hefyd unrhyw rai sy'n ymddiddori mewn gwaith llaw a chrefft i roi un prynhawn y mis. Byddent yn darparu yr adnoddau ar gyfer y gwaith. Ei rhif ffôn hi yw 783506 neu rhowch wybod i un o'r swyddogion ac fe wnawn ni gysylltu ar eich rhan.

IEUENCTID Y CAPEL

Mae Lleucu, Gwen, Indeg ac Elinor wedi bod yn brysur yn cystadlu yn eisteddfod sir yr Urdd ac yn edrych ymlaen at gystadlu yn Eisteddfod yr Urdd Brycheiniog a Maesyfed ddiwedd mis Mai. Bu Teilo'n cyfeilio yn eisteddfodau cylch a sir Urdd Morgannwg tra adre o'r Brifysgol.

Pob hwyl i bawb sy'n sefyll arholiadau TGAU a Safon Uwch ac i Ieuan, Ffion a Teilo fydd yn sefyll arholiadau'n y Brifysgol.

Gwellhad buan i Indeg ar ôl iddi dreulio cyfnod byr yn yr ysbyty ddechrau mis Mawrth.

Mae Lleucu Jones un o'n pobl ifanc wedi bod yn brysur gyda rhai o'i chyd-ddisgyblion yn codi arian ac wedi derbyn gwobr o £1000 yng Nghystadleuaeth First Give. Eu helusen ddewisol nhw yw "The Lil Alfie Fund" sydd yn codi arian i gynorthwyo bachgen o'r enw Alfie sydd ag anhwylder anghyffredin iawn. Cewch rhagor o'r hanes yma yn Hogwr mis Ebrill. Wedi i chi ddarllen am yr hyn maent yn gwneud ac efallai yn dymuno eu helpu rhowch wybod i ni a gallwn gysylltu nol efo Lleucu.

Dewch i sgwrsio gyda'r dysgwyr ac i fwynhau cwpaned a rhywbeth i fwyta ar yr un pryd.

CYNNAL A CHADW

Yn ystod y misoedd diwethaf bu'n rhaid unwaith eto wneud rhagor o waith ar yr adeiladau.

Rhaid oedd ail osod llechen ar dô y Neuadd a dwy lechen ar dô y Capel. Diolch i Derek am drefnu ac i Eurof Davies am wneud y gwaith.

Gwnaed gwaith ar system gwresogi y Neuadd gan Martin Hodgson.

CYFUNDEB DWYRAIN MORGANNWG

Dyma amserlen y cyfarfodydd fydd yn cymryd lle yn 2018.

Gorffennaf 8fed.– Dydd Sul yn Efail Isaf - Oedfa'r Cyfundeb

Medi 26ain— Nos Fercher Minny Street Caerdydd - Apêl Madagascar.

Yng Nghyfarfod y Cyfundeb ym Mhenybont ym Mis Mawrth buom yn trafod y posiblrwydd o gael gweithiwr Ieuenctid yn y pen yma o'r Cyfundeb. Diolch am gefnogaeth y Cyfundeb a chynrychiolwyr Pen-y-bont.

EGLWYSI YNGHYD YM MHORTHCAWL

Cynhaliwyd cyfres o gyfarfodydd y Grawys mewn gwahanol leoliadau yn y dref yn ystod yr wythnosau diwethaf. Thema y cyfarfodydd oedd Gweddio. Dilynwyd cwrs Grawys oedd wedi ei baratoi gan Eglwys Gadeiriol Chichester. Ynddo roedd 6 person wedi dewis gwaith celf a oedd wedi dylanwadu arnynt mewn unrhyw fodd ac yn eu helpu wrth weddio. Bu i Tom Price arwain y cyfarfod cyntaf yn ein Neuadd ni, yna bu cyfarfod yn Eglwys Trinity ac yna un yn Eglwys Dewi Sant Notais. Cyfle da i gyd gyfarfod a chyd drafod a dod i adnabod eraill o deuluoedd ffydd yn yr ardal.

MYFYRDOD - allan o Word for Today 26ain Chwefror 2018 "Don't worry about anything but pray about everything" Phillipians 4:6

One Bible teacher writes: "The pressures of our times have many of us caught in a web of the most acceptable, yet energy-draining sin in the Christian family: worry. Chances are good you woke up this morning, stepped out of bed, and before doing anything, strapped on your well-worn backpack of anxiety. You started the day not with a prayer on your mind, but loaded down by worry. What a dreadful habit! Jesus challenged His followers with The question "Who of you by being worried can add a single hour to his lfie?" (Matthew 6:27) Worry solves nothing it creates unrest and uneasiness, and if left unchecked it can churn our waves of anxiety into a perfect storm of emotions. Add a little imagination and creativity, and our worst fears come to life in Technicolour brilliance. The stress from worry drains our energy and preoccupies our mind, stripping us of our peace... We fret over big things and little things. Some of us have a laundry list of concerns that feed our addiction to worry. It's a very unattractive addiction, yet we somehow manage to make a joke out of it. I've heard people say with a smile "If I don't have something to worry about. I get worried about not having something to worry about" Anxiety has become a favourite pastime we love to hate. And worst, we're passing ti on to our children. As they see the worry on our faces and hear it from our lips, we're, mentoring them in the art of anxiety." So, what's the answer? Don't worry about anything, but pray about everything".

Cofiwch y dywediad bach yma—"Worry is like a rocking horse it moves to and fro but doesn't get you anywhere!"

"Peidiwch â phryderu am ddim, ond gweddiwch am bopeth...." (Philipiaid 4 Adnod 6)

ASTUDIAETHAU BEIBLAIDD

Mae nifer bach ohonom wedi dod ynghyd o dan arweiniad y Parchg Gerwyn Jones i astudio ac i drafod y Bregeth ar y Mynydd. Mae wedi bod yn braf medru gwrando ac yna cael ein harwain i drafod a rhannu syniadau. Os oes diddordeb gan unrhyw un i ymuno gyda ni byddwn yn cwrdd eto ar ôl y Pasg ar Ebrill 23ain.

CWRDD SWYDDOGION

Rydym fel swyddogion yn cyfarfod yn fisol i barhau gyda'r gwaith o ofalu am aelodau a buddiannau yr Eglwys. Os oes rhywbeth yr hoffech i ni drafod rhowch wybod i un o'r swyddogion.

Un peth sydd wedi dod i'n sylw yw bod y gyfraith ynghlyn â phreifatrwydd a manylion personol yn dod i rym ar Fai 25ain. Bydd yn angenrheidiol i ni felly drafod a gweithredu yn ôl y gyfraith newydd.

CYDYMDEIMLO

Estynnwn ein cydymdeimlad i Meirwen Jones gan iddi golli brawd yn ddiweddar. Hefyd wrth i ni geisio rhoi y cylchlythyr yma at ei gilydd bu i ni glywed am farwolaeth sydyn chwaer Kevin Cullinan. Estynnwn ein cydymdeimlad diffuant â'r teuluoedd yma yn eu colled.

YSBYTY

Yn ystod y misoedd diwethaf mae y Parchg Dewi Thomas wedi bod yn yr ysbyty. Mae adre erbyn hyn ac yn araf wella. Estynnwn ein dymuniadau gorau iddo ac i Rita a'i gofal drosto. Yn ystod y cyfnod o eira bu i Peter Edwards gŵr Pauline Edwards syrthio ac anafu ei benglin. Wedi treulio amser yn yr ysbyty a derbyn llawdriniaeth mae adre erbyn hyn.

I ychwanegu at eu pryderon bu i Pauline syrthio a thorri ei braich. Felly mae yn gyfnod anodd arnynt hwythau. Mae

wedi bod yn gyfnod gofidus ar John a Glenda Williams hefyd yn ystod yr wythnosau diwethaf gyda Glenda wedi gorfod treulio cyfnod hir yn ei gwely a John er ei afiechyd yn gofalu amdani. Blin iawn yw clywed am anhwylder Jennifer Stephens sydd wedi bod yn dioddef am gyfnod o wythnosau. Estynnwn ein dymuniadau gorau i Anne Williams ac Eirwen Evans sydd ddim wedi medru bod gyda ni yn yr oedfaon mor selog ag arfer oherwydd gwahanol anhwylderau.

Cofiwn am Jessie Gravelle yn Nghartref Gofal Brocastell. Cofiwn hefyd am Marian Davies, Mair Davies, Haulwen Pierce, Barbara Jones, Marina Davies a Marian Roberts, Orrea Edmunds ac eraill sydd oherwydd afiechyd a llesgedd yn methu mynychu'r oedfaon fel y dymunent.

Bydded i ni gyd fel aelodau gadw y cyfryw rai yma yn ein gweddiau ac estyn allan yn ôl ein gallu i wneud yr hyn y gallwn i'w cynorthwyo.

Fel swyddogion gofynnwn yn garedig i'r aelodau roi gwybod i ni am unrhyw rai sy'n mynd trwy gyfnodau anodd ac yn dymuno i ni gofio amdanynt yn ein gweddiau neu fyddai yn dymuno cael galwad gan unrhyw un o'r capel

BANC BWYD

Diolch i bawb sydd wedi bod yn cyfrannu yn rheolaidd i'r blwch sydd yng nghyntedd y capel. Mae pob dim a gyfrannir yn mynd i'w dosbarthu yn lleol i nifer gynyddol o bobl lleol sydd yn dibynnu ar y Banc Bwyd. Diolch i Tom a Rhiannon sydd yn mynd a'n cyfraniadau i'r ganolfan leol yn rheolaidd.

SADWRN SIARAD

Mae y Boreau Coffi yma yn mynd o nerth i nerth. Mae yn gyfle gwych i ddysgwyr ymarfer eu Cymraeg ac i ddod i adnabod Cymry Cymraeg mewn awyrgylch gymdeithasol.